# Tueddiadau cyngor yng Nghymru

**Ystadegau am gleientiaid gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru:**

**Ffocws ar nodweddion gwarchodedig**

Chwarter 1 a Chwarter 2
(Ebrill - Medi 2015)



cyngor ar bopeth
citizens advice

# Cyngor ar Bopeth Cymru

Cafodd elusen Cyngor ar Bopeth ei sefydlu ym 1939. Ers hynny, rydym wedi rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth ar bob math o faterion bob dydd i bwy bynnag sydd ei angen, o ddyledion, arian a budd-daliadau lles i dai, cyflogaeth a pherthnasau.

Mae ein sesiynau addysg ariannol a rhaglenni gwneud yn fawr o'ch incwm hefyd yn helpu pobl i gymryd rheolaeth o'u harian a sicrhau bod y rhai mewn angen yn hawlio'r holl gymorth ariannol sy'n ddyledus iddyn nhw.

Yng Nghymru, mae gennym rwydwaith o 19 o ganolfannau lleol Cyngor ar Bopeth[1] - elusennau unigol bob un, gyda bron i 800 o staff gwirfoddol a chyflogedig ymroddedig.

Rydym yn chwalu'r rhwystrau i gyngor trwy fynd i lefydd lle mae pobl ein hangen fwyaf, gan roi cyngor o 375 o leoliadau cymunedol o Fôn i Fynwy, yn ogystal â chynnig gwasanaethau dros y ffôn ac ar-lein.

Mae miliynau o bobl ledled Cymru a Lloegr yn troi atom bob blwyddyn. Trwy hyn, cawn gipolwg unigryw ar eu hanghenion a'u pryderon nhw. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgyrchu dros faterion o bwys, yn lleol ac yn genedlaethol. Felly, rydym yn helpu pawb mewn rhyw fodd – nid dim ond rhai sy'n cael cymorth uniongyrchol gennym.

[1] Mae Cyngor ar Bopeth yn newid. Rydym yn moderneiddio ein gwasanaethau er mwyn ymateb i anghenion sy'n newid ac er mwyn cyrraedd mwy o bobl. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi newid enw'r gwasanaeth – gyda 'canolfan' bellach yn cael ei galw yn Cyngor ar Bopeth lleol.

# Cynnwys



| | |
|---|---|
| Tueddiadau cyngor – dyma'r penawdau | 03 |
| Cyflwyniad | 06 |
| Oedran | 06 |
| Anabledd | 11 |
| Ethnigrwydd | 14 |
| Rhywedd | 14 |
| Casgliad | 16 |
| Atodiad | 17 |

# Tueddiadau cyngor – dyma'r penawdau

Rhwng **mis Ebrill a mis Medi 2015**, fe wnaeth Cyngor ar Bopeth Cymru helpu mwy na **60,000 o bobl** gyda mwy na **202,000 o broblemau**, **cynnydd o 11%** o gymharu â'r un cyfnod yn 2014-15. Mae adran Cymru o wefan hunangymorth Cyngor ar Bopeth wedi cael dros **387,000 o ymwelwyr** yn y cyfnod hwn hefyd.

Y taliad annibyniaeth bersonol (PIP)[2] yw'r mater unigol mwyaf y mae pobl yn gofyn i ni am gymorth yn ei gylch ar hyn o bryd – mwy na'r holl faterion eraill yn ymwneud â budd-daliadau a bron dwbl y brif broblem ddyled. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, mae ein gwasanaeth wedi helpu **6,748 o gleientiaid** gydag **17,735 o broblemau PIP** – **cynnydd o 44%** ar yr un cyfnod y llynedd.

10 problem fwyaf cyffredin yng Nghymru – Ebrill - Medi 2015




## Budd-daliadau a lles

Ers 2011-12 problemau gyda budd-daliadau yw testun mwyaf cyffredin y cyngor a roddir gan Cyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru. Maent yn cyfrif am **39%** o'r holl faterion sy'n dod i'n sylw ni ar hyn o bryd. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015 cafodd bron i **26,500 o bobl** gymorth gyda mwy na **79,300 o broblemau gyda budd-daliadau**.

Mae bron i **2,000 o bobl** wedi gofyn am gymorth gydag apêl, neu gyda herio penderfyniad, yn ymwneud â'u cais am lwfans cyflogaeth a chymorth (ESA).

**4 o bob 10**
dyna faint o broblemau budd-daliadau sy'n deillio o fudd-daliadau anabledd PIP ac ESA

[2] Budd-dal nad yw'n seiliedig ar brawf modd yw'r PIP sy'n raddol ddisodli'r lwfans byw i'r anabl ar gyffer pobl o oedran gweithio (16 i 64).

**9%**
o gynnydd mewn problemau credydau treth gwaith/plant

Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol hefyd mewn problemau'n ymwneud ag apeliadau PIP neu herio penderfyniad PIP yn chwe mis cyntaf 2015-16, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (**cynnydd o 263%** yn achos y cyntaf a **124%** yn achos yr ail).

Mae nifer y cleientiaid sy'n cael cymorth gyda phroblem yn ymwneud â chredyd cynhwysol yn parhau i godi wrth i'r budd-dal gael ei gyflwyno ledled Cymru, er bod y ffigurau'n gymharol isel o hyd – rhoddwyd cymorth i **215 o gleientiaid** gyda **348 o broblemau credyd cynhwysol** rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015.

**Dyled**

Dyled yw'r ail broblem fwyaf cyffredin o hyd, sef **29%** o'r holl broblemau. Cafodd dros **13,800 o bobl** help gyda mwy na **58,655 o broblemau dyled** rhwng Ebrill a Medi 2015, ychydig yn llai (-2%) o gymharu â'r un cyfnod yn 2014.

Gwelwyd gostyngiad hefyd mewn sawl math o ddyledion credyd defnyddwyr, yn cynnwys cardiau credyd, benthyciadau personol a benthyciadau diwrnod cyflog.

**42%**
yn llai o broblemau benthyciadau diwrnod cyflog

**19%**
o gynnydd mewn problemau ôl-ddyledion y dreth gyngor

Er hynny, mae cyfran y problemau sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion gyda biliau cartref hanfodol (fel y dreth gyngor, rhent a dŵr) yn parhau i godi. Mae problemau gydag ôl-ddyledion dirwyon llys ynadon a gorchmynion iawndal yn cynyddu hefyd (i fyny 14%). Mae bron hanner y problemau hyn (47%) yn deillio o gamau gweithredu asiantau gorfodi/beilïaid, ac mae hyn yn wir hefyd am draean o holl broblemau ôl-ddyledion y dreth gyngor (34%).

## Tai

Trodd bron i **6,300 o bobl** at Gyngor ar Bopeth lleol i gael cymorth gyda **mwy na 8,600 o broblemau tai** rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015. Problemau gyda chartrefi'r sector rhentu preifat yw'r mwyafrif o hyd, ac atgyweiriadau/cynnal a chadw; rhent a thaliadau eraill a diogelu blaendal tenantiaid yw'r problemau mwyaf o hyd.

**20%**
o gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent ymysg tenantiaid cymdeithasau tai

**3 o bob 10**
o broblemau tai yn ymwneud ag eiddo yn y sector rhentu preifat

## Cyflogaeth

Mae problemau cyflogaeth yn parhau i fod yn drydydd ar y rhestr o'r problemau mwyaf cyffredin y mae pobl yn troi atom yn eu cylch. Yn y chwe mis ers mis Ebrill, mae Cyngor ar Bopeth lleol wedi helpu dros **6,000 o bobl** gyda **9,400 o broblemau cyflogaeth**, ond mae hyn yn ostyngiad bach (-3%) ers yr un cyfnod yn 2014. Problemau'n ymwneud â chyflog a hawliau yw'r rhai mwyaf cyffredin – maent yn cyfrif am chwarter yr holl broblemau. Darlun cymysg a gafwyd o ran problemau'n ymwneud â cholli gwaith gyda phroblemau diswyddo wedi gostwng 5% a phroblemau dileu swyddi wedi cynyddu 4%.

## Ynni

Mae Cyngor ar Bopeth lleol wedi helpu mwy na **2,800 o bobl** gyda phroblem yn ymwneud ag ynni rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, yn cynnwys ymdrin ag ad-dalu dyledion a phroblemau'n ymwneud â'r tariff/pris maent yn ei dalu am eu nwy a thrydan, dulliau gwerthu/newid cyflenwr a'r Gostyngiad Cartref Cynnes[3].

[3] Cynllun ad-daliad yw'r Gostyngiad Cartref Cynnes (gwerth £140 yn ystod gaeaf 2014-15) y mae'n ofynnol i'r cwmnïau ynni mwyaf (sydd â 250,000 neu fwy o gwsmeriaid) ei ddarparu yn ôl y gyfraith. Gall cyflenwyr llai hefyd gymryd rhan yn wirfoddol.

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen wybodaeth hon yn rhan o ddiweddariadau rheolaidd gan Gyngor ar Bopeth Cymru sy'n tynnu sylw at y prif broblemau y mae cleientiaid ledled Cymru yn gofyn am gymorth y gwasanaeth yn eu cylch. Mae'n cyfeirio at ddau chwarter cyntaf 2015-16 (Ebrill-Medi 2015). Yn ogystal â rhai o'n prif ystadegau, prif ffocws yr adroddiad yw rhoi dadansoddiad o'r prif bynciau y mae pobl yn gofyn am gyngor arnynt yn ôl proffil cleientiaid[4], gan edrych yn benodol ar **bedair nodwedd warchodedig** – oedran, anabledd, rhywedd ac ethnigrwydd.

Dylid nodi fod gan rai grwpiau gynrychiolaeth ormodol ymhlith cleientiaid Cyngor ar Bopeth o gymharu â'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Er mwyn ystyried hyn, wrth i ni edrych yn fanylach ar y math o broblemau y mae pobl wedi gofyn am gymorth yn eu cylch, rydym ni wedi cymharu cyfrannau gyda chyfran gyffredinol y bobl yn y grŵp penodol hwnnw (e.e. band oedran; rhywedd) ar gyfer pob math arbennig o gyngor er mwyn canfod gwahaniaethau penodol. Er enghraifft, pobl ifanc 15 i 24 oed yw 12% o gleientiaid tai ond maent yn cyfrif am 18% o'r holl broblemau sy'n ymwneud ag eiddo yn y sector rhentu preifat.

# Oedran

Efallai y bydd angen pobl am gyngor yn amrywio ar wahanol adegau o'u bywyd. Mae Tabl 1 yn helpu i ddangos hyn drwy ddadansoddi'r pedwar prif faes cyngor fesul oedran.

| Oedran | Pob cleient | Budd-daliadau | Dyled | Tai | Cyflogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| 15-24 | 9% | 8% | 8% | **12%** | **16%** |
| 25-34 | 20% | 17% | **24%** | **23%** | **28%** |
| 35-49 | 29% | 30% | **35%** | 28% | 29% |
| 50-64 | 29% | 33% | 26% | 23% | 23% |
| 65+ | 13% | 11% | **7%** | 14% | **3%** |

▲ Tabl 1: Cyfran y problemau ar draws ein pedwar prif faes cyngor fesul proffil oedran y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% colofnau)

[4] Dylid nodi y bydd cleientiaid yn aml yn gofyn am gyngor ar fwy nag un pwnc felly efallai y bydd yr un cleient yn cael ei gynrychioli fwy nag unwaith wrth edrych ar y data fel hyn.

Yn y chwe mis o fis Ebrill i fis Medi 2015, pobl ifanc (15 i 34 oed) oedd mwy na dau ymhob pump (44%) o'r holl gleientiaid cyflogaeth a mwy na thraean (35%) o'r holl gleientiaid tai – o gymharu â 29% o'r holl gleientiaid.

Mae pobl 65 oed a hŷn yn llai tebygol o lawer o ofyn am gyngor yn ymwneud â chyflogaeth - sydd yn gwneud dim ond 3% o gleientiaid cyflogaeth, o gymharu ag 13% o'r holl gleientiaid.

Gan edrych yn fanylach ar broblemau cyflogaeth, mae tabl 2 yn dangos sut mae'r math o broblem y mae pobl angen cyngor yn ei chylch yn gallu amrywio yn ôl oedran. Hwyrach fod natur cyflogaeth ieuenctid yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod bron hanner y cleientiaid sydd wedi gofyn am gymorth mewn perthynas â chyflog a hawliau (sy'n cynnwys materion fel cyflogau/slipiau cyflog, tâl salwch a hawl i wyliau) (47%) a diswyddo (46%) rhwng 15 a 34 oed.

Yn yr un modd, mae mwy na dau o bob pum cleient (42%) sydd wedi gofyn am gymorth gyda phroblem yn ymwneud â thelerau ac amodau cyflogaeth (ymholiadau cyffredinol am gontractau, oriau gwaith/cael egwyl a chontractau dim oriau) yn perthyn i'r grŵp oed hwn hefyd.

Pobl hŷn, fodd bynnag, yw mwy o gleientiaid dileu swyddi. Mae bron i ddau o bob pum cleient (38%) sydd wedi gofyn am gyngor yn ymwneud â phroblem dileu swyddi rhwng 50 a 64 oed.

| Math o broblem cyflogaeth | 15-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|
| *Pob cleient cyflogaeth:* | *16%* | *28%* | *29%* | *23%* | *3%* |
| Cyflog a hawliau | **19%** | **28%** | 26% | 24% | 3% |
| Diswyddo | **19%** | **27%** | 31% | 22% | 1% |
| Telerau ac amodau cyflogaeth | **15%** | **27%** | 27% | 27% | 3% |
| Datrys anghydfod | 13% | 28% | 34% | 23% | 2% |
| Dileu swyddi | 8% | 17% | 32% | **38%** | 5% |

▲ Tabl 2: Y problemau cyflogaeth mwyaf cyffredin yn ôl proffil oedran y cleient - Ch1a Ch 2015-16 (% rhesi)

Problemau sy'n gysylltiedig ag eiddo yn y sector rhentu preifat yw bron i 3 o bob 10 o broblemau tai a ddaw drwy ddrysau Cyngor ar Bopeth lleol. Gan fod pobl ifanc yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent preifat, nid yw'n syndod bod hanner y cleientiaid sydd wedi cael cymorth gyda phroblemau o'r fath rhwng 15 a 34 oed (49%).

| Math o broblem tai | 15-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|
| *Pob cleient tai:* | *12%* | *23%* | *28%* | *23%* | *14%* |
| Eiddo yn y sector rhentu preifat | **18%** | **31%** | 26% | 18% | 7% |
| Problemau amgylcheddol neu gyda chymdogion | 3% | 13% | 26% | 26% | **32%** |
| Bygythiad o fod yn ddigartref | 14% | 24% | **36%** | 21% | 4% |

▲ Tabl 3: Y problemau tai mwyaf cyffredin yn ôl proffil oedran y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% rhesi)

O ran grwpiau oedran eraill, mae bron i draean y cleientiaid (32%) sydd wedi gofyn am gyngor ar broblem amgylcheddol neu broblem gyda chymdogion yn 65 oed a throsodd, ac mae mwy na thraean o'r rhai sydd wedi troi at Gyngor ar Bopeth lleol pan maent dan fygythiad o fod yn ddigartref yn perthyn i'r grŵp 35 i 49 oed (36%).

Mae bron i 6 o bob 10 cleient dyled (59%) rhwng 25 a 49 oed - o gymharu â 49% o'r holl gleientiaid. Fel yn achos tai a chyflogaeth, mae pobl hŷn (65 oed a throsodd) yn llai tebygol o ofyn am gymorth gyda phroblemau dyled, ac maent yn cyfrif am 7% yn unig o gleientiaid dyled.

| Oedran | 15-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|
| *Pob cleient dyled:* | *8%* | *24%* | *35%* | *26%* | *7%* |
| Ôl-ddyledion y dreth gyngor | 9% | **28%** | **39%** | 22% | 3% |
| Cardiau credyd/siopau | 5% | 22% | 37% | 27% | **9%** |
| Gorchymyn gostwng dyled | 9% | 29% | 37% | 22% | 3% |
| Benthyciadau personol | 7% | 25% | 35% | 27% | **7%** |
| Ôl-ddyledion rhent – awdurdod lleol | 8% | **28%** | **39%** | 23% | 2% |
| Ôl-ddyledion rhent – cymdeithas tai | 10% | **26%** | **39%** | 24% | 2% |
| Ôl-ddyledion rhent – sector rhentu preifat | **14%** | **29%** | **36%** | 18% | 2% |

▲ Tabl 4: Y problemau dyled mwyaf cyffredin yn ôl proffil oedran y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% rhesi)

Mae'r math o broblemau dyled y mae pobl 25-49 oed yn gofyn am gymorth yn eu cylch yn adlewyrchu i bob pwrpas y prif broblemau dyled ar gyfer yr holl gleientiaid[5]. Mae cyfran mymryn yn uwch o'r grŵp oedran hwn wedi troi at Gyngor ar Bopeth lleol i gael cymorth gydag ôl-ddyledion biliau'r cartref (y dreth gyngor a rhent). Ar gyfer cleientiaid 65 oed a hŷn, y gwrthwyneb sy'n wir gyda chyfran mymryn yn uwch yn gofyn am gymorth gyda chynhyrchion credyd i ddefnyddwyr (cardiau credyd a benthyciadau personol), er bod y ffigurau cyffredinol ar gyfer yr olaf yn isel o hyd.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, mae Cyngor ar Bopeth ledled Cymru wedi gweld 42% yn llai o broblemau'n ymwneud â benthyciadau diwrnod cyflog. Mae hyn yn dilyn patrwm tebyg yn gynharach yn y flwyddyn ac yn cyd-fynd â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn cyflwyno rheoliadau llymach ar gyfer y diwydiant benthyciadau diwrnod cyflog. Cleientiaid 15 i 34 oed yw dros hanner y cleientiaid benthyciadau diwrnod cyflog (54%).

Mae pobl ifanc (15-24 oed) hefyd yn cynrychioli cyfran uwch na'r cyfartaledd o gleientiaid sydd wedi gofyn am gymorth gyda phroblemau'n ymwneud ag ôl-ddyledion rhent yn y sector rhentu preifat.

[5] Mae manylion yn yr Atodiad

Mae Tabl 5 yn dangos bod cyfrannau'r cleientiaid budd-daliadau ym mhob grŵp oedran yn adlewyrchu i bob diben y cyfrannau ymhlith holl gleientiaid Cyngor ar Bopeth yng Nghymru. Fodd bynnag, o edrych yn fanylach ar y math o fudd-daliadau y mae pobl yn gofyn am gymorth yn eu cylch, mae hwn yn amrywio yn ôl oedran yn aml.

| Math o fudd-dal | 15-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|
| *Pob cleient budd-daliadau:* | *8%* | *17%* | *30%* | *33%* | *11%* |
| PIP | 6% | 12% | 33% | **46%** | 4% |
| ESA | 5% | 13% | 32% | **48%** | 1% |
| Budd-dal tai | 10% | 22% | 31% | 30% | 8% |
| Credydau treth gwaith/plant | 9% | **28%** | **41%** | 21% | 3% |
| Gostyngiad y dreth gyngor | 6% | 16% | 27% | 35% | 15% |

▲ Tabl 5: Y problemau budd-daliadau mwyaf cyffredin yn ôl proffil oedran y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% rhesi)

Mae PIP yn raddol ddisodli'r lwfans byw i'r anabl ar gyfer pobl o oedran gweithio (16-64 oed). Fel mae tabl 5 yn dangos, mae bron hanner y cleientiaid PIP a gafodd gymorth rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015 yn perthyn i'r rhan uwch o'r grŵp oedran hwnnw, sef 50-64 oed (46%). Yn yr un modd, y grŵp oedran hwn yw bron i 48% o'r holl gleientiaid ESA.

Fel y gellid ei ddisgwyl, pobl rhwng 25 a 49 oed yw bron i 7 o bob 10 cleient sydd wedi gofyn am gymorth gyda phroblem credyd treth (69%) – o gymharu â 47% o'r holl gleientiaid budd-daliadau. Pobl 65 oed a hŷn yw mwyafrif y cleientiaid sydd wedi troi at Gyngor ar Bopeth am help gyda phroblemau'n ymwneud â lwfans gweini (budd-dal ar gyfer pobl ag anghenion gofal sy'n 65 oed a throsodd ac nad ydynt yn cael lwfans byw i'r anabl neu PIP) a chredyd pensiwn.

# Anabledd

Caiff pobl sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor eu cynrychioli'n ormodol ymhlith cleientiaid Cyngor ar Bopeth o gymharu â'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015, dywedodd dros ddau gleient o bob pump (44%) eu bod yn byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, o gymharu â chyfartaledd y boblogaeth sef 23%[6].

Mae Tabl 6 yn dangos sut roedd pobl sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn cyfrif am 6 o bob 10 cleient budd-daliadau yn ystod dau chwarter cyntaf 2015-16. Nid yn unig y mae problemau gyda budd-daliadau anabledd a salwch - PIP ac ESA – yn cyfrif am 4 o bob 10 problem budd-daliadau, ond dyma'r ddwy broblem fwyaf cyffredin sydd gan y cleientiaid sy'n troi atom ni am gymorth.

| Anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor (LTHC) | Pob cleient | Budd-daliadau | Dyled | Tai | Cyflogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Anabledd/LTHC | 44% | **60%** | 42% | 39% | **22%** |
| Dim anabledd/LTHC | 56% | 40% | 58% | 61% | 78% |

▲ Tabl 6: Cyfran y problemau yn ein pedwar prif faes cyngor yn ôl proffil anabledd y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% colofnau)

Ar y llaw arall, gan fod llai o bobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn debygol o fod yn gweithio maent yn cyfrif am 22% yn unig o gleientiaid cyflogaeth.

[6] *Disability in England and Wales, 2011 and Comparison with 2001*, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2013

| Math o fudd-dal | Anabledd/LTHC | Dim anabledd/LTHC |
|---|---|---|
| *Pob cleient budd-daliadau:* | *60%* | *40%* |
| PIP | **88%** | 12% |
| ESA | **83%** | 17% |
| Budd-daliadau tai | 51% | 49% |
| Credydau treth gwaith/plant | **33%** | 67% |
| Gostyngiad y dreth gyngor | 54% | 46% |

▲ Tabl 7: Y problemau budd-daliadau mwyaf cyffredin yn ôl proffil anabledd y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% rhesi)

Yn ôl y disgwyl, mae mwyafrif y cleientiaid PIP ac ESA a gafodd gymorth Cyngor ar Bopeth lleol yn ystod y chwe mis o rhwng mis Ebrill a Medi 2015 yn byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Mae llai o lawer o'r cleientiaid hyn wedi troi at y gwasanaeth am broblemau gyda chredydau treth.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod bron i ddwy ran o dair o gleientiaid (63%) sydd wedi gofyn am gymorth gyda lles cymdeithasol lleol h.y. y Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru, yn byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

O ran problemau dyled, mae cyfran y cleientiaid dyled sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yr un fath â'r ffigur ar gyfer yr holl gleientiaid. Fel y dengys tabl 8, fodd bynnag, ar wahân i'r dreth gyngor, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r grŵp hwn yn cynnwys cleientiaid sydd wedi gofyn am gymorth gydag ôl-ddyledion biliau hanfodol y cartref (o gymharu â chyfartaledd o 42% o'r holl gleientiaid dyledion). Mae hyn yn dangos bod rhai pobl sy'n byw gydag anabledd/cyflwr iechyd hirdymor o bosibl yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd fforddio costau byw bob dydd.

| Math o ddyled | Anabledd/LTHC | Dim anabledd/LTHC |
|---|---|---|
| *Pob cleient dyled:* | *42%* | *58%* |
| Ôl-ddyledion y dreth gyngor | 36% | 64% |
| Dyledion dŵr | **49%** | 51% |
| Dyledion tanwydd | **49%** | 51% |
| Dyledion ffôn/band eang | **48%** | 52% |
| Ôl-ddyledion rhent – cymdeithas tai | **48%** | 52% |

▲ Tabl 8: Ôl-ddyledion biliau'r cartref yn ôl proffil anabledd y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% rhesi)

Mae cyfrannau uwch na'r cyfartaledd o'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys cleientiaid sydd wedi gofyn am gymorth gydag ôl-ddyledion ar eiddo cymdeithas tai. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn fwy tebygol o fod wedi cael eu heffeithio gan y rheolau tanfeddiannaeth budd-dal tai (neu'r 'dreth ystafell wely'). O ran ôl-ddyledion rhent sy'n gysylltiedig ag eiddo tai awdurdod lleol neu eiddo yn y sector rhentu preifat, mae cyfran y cleientiaid sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn adlewyrchiad agosach o'r ffigur ar gyfer yr holl gleientiaid dyled (44% yn achos tai awdurdod lleol a 41% yn achos y sector rhentu preifat).

O edrych ar broblemau tai yn fanylach, mae cleientiaid sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn cyfrif am gyfran uwch na'r cyfartaledd o gleientiaid sydd wedi troi at Gyngor ar Bopeth am gymorth gyda phroblem yn ymwneud ag eiddo awdurdod lleol (52%) neu gymdeithas tai (50%), a chyfran is o'r rhai sydd wedi gofyn am help gyda phroblem yn ymwneud ag eiddo yn y sector rhentu preifat.

Ychydig o amrywiad sydd yn y gwahanol fathau o broblemau cyflogaeth ymhlith cleientiaid sydd ag anabledd/cyflwr iechyd hirdymor a chleientiaid heb anabledd/cyflwr iechyd hirdymor.

# Ethnigrwydd

Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yw 6% o holl gleientiaid Cyngor ar Bopeth yng Nghymru – o gymharu â 4% o'r boblogaeth yn gyffredinol[7]. Fel y dengys tabl 9, ar draws y pedwar prif faes cyngor, ychydig iawn o wahaniaeth sydd yna yn y math o gyngor mae cleientiaid duon a lleiafrifoedd ethnig a chleientiaid gwyn yn gofyn amdano.

| Ethnigrwydd | Pob cleient | Budd-daliadau | Dyled | Tai | Cyflogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 6% | 5% | 6% | 7% | 6% |
| Gwyn | 94% | 95% | 94% | 93% | 94% |

▲ Tabl 9: Cyfran y problemau yn ein pedwar prif faes cyngor yn ôl proffil ethnigrwydd y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% colofnau)

O edrych ar y data ar draws y prif broblemau ym mhob maes cyngor – budd-daliadau, dyled, tai a chyflogaeth – unwaith eto roedd cyfran y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a chleientiaid gwyn yn adlewyrchu, i bob diben, y ffigurau ar gyfer yr holl gleientiaid, gydag ambell i eithriad bach – er enghraifft, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig oedd 9% o gleientiaid credydau treth (o gymharu â 5% o'r holl gleientiaid budd-daliadau) ac 1% yn unig o gleientiaid dileu swyddi (o gymharu â 6% o'r holl gleientiaid cyflogaeth).

# Rhywedd

Mae ychydig mwy o fenywod yn gofyn am gymorth gan Cyngor ar Bopeth (57%) na chyfartaledd y boblogaeth (51%)[8], ond fel y dengys tabl 10, ychydig iawn o wahaniaeth sydd yn natur y cyngor y mae cleientiaid ei eisiau, boed yn ddynion neu'n fenywod.

[7] '*Population estimates by ethnic group, 2001 to 2009*', Ystadegau Llywodraeth Cymru (Mai 2011)
[8] Cyfrifiad 2011 – Amcangyfrifon o Boblogaeth a Chartrefi Cymru, Mawrth 2011

| Rhywedd | Pob cleient | Budd-daliadau | Dyled | Tai | Cyflogaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Menyw | 57% | 59% | 58% | 59% | 56% |
| Dyn | 43% | 41% | 42% | 41% | 44% |

▲ Tabl 10: Cyfran y problemau ar draws ein pedwar prif faes cyngor yn ôl proffil rhywedd y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% colofnau)

O edrych yn fanylach ar y math o broblemau ym mhob maes cyngor, roedd cyfran y cleientiaid a oedd yn fenywod ac yn ddynion yr un fath â'r ffigurau ar gyfer yr holl gleientiaid ar y cyfan, yn achos problemau budd-daliadau, tai a chyflogaeth.

Roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn cynnwys y canlynol – menywod oedd 71% o'r holl gleientiaid credydau treth, o gymharu â 59% o'r holl gleientiaid budd-daliadau, a dynion oedd 47% o gleientiaid ESA o gymharu â 41% o'r holl gleientiaid budd-daliadau. Dynion oedd 51% o gleientiaid diswyddo hefyd, o gymharu â 44% o'r holl gleientiaid cyflogaeth.

| Math o ddyled | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| *Pob cleient dyled:* | *58%* | *42%* |
| Ôl-ddyledion y dreth gyngor | 62% | 38% |
| Dyledion dŵr | **65%** | 35% |
| Dyledion tanwydd | 62% | 38% |
| Dyledion ffôn/band eang | 61% | 39% |
| Ôl-ddyledion rhent – cymdeithas tai | **65%** | 35% |
| Ôl-ddyledion rhent – awdurdod lleol | **72%** | 28% |
| Ôl-ddyledion rhent – sector rhentu preifat | 60% | 40% |

▲ Tabl 11: Ôl-ddyledion biliau'r cartref yn ôl proffil rhywedd y cleient - Ch1 a Ch2 2015-16 (% rhesi)

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau mwy amlwg ar draws gwahanol fathau o broblemau dyledion, fel y gwelir yn nhabl 11 uchod. Fel yn achos cleientiaid sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o fenywod ymhlith y cleientiaid sydd wedi gofyn am gymorth gydag ôl-ddyledion biliau hanfodol y cartref. Hwyrach fod hyn yn arwydd eu bod yn fwy tebygol o'i chael hi'n anodd talu costau byw o ddydd i ddydd, neu fe allai fod yn adlewyrchu'r ffaith fod mwy o fenywod yn gyfrifol am gyllideb y cartref o ddydd i ddydd.

Menywod hefyd yw dros dri chwarter y cleientiaid (77%) sydd wedi gofyn am gymorth gyda dyledion catalog/archebu drwy'r post.

# Casgliad

Mae canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn ein helpu i nodi sut gall anghenion am gyngor newid yn dibynnu ar nodweddion ac amgylchiadau personol pobl.

Mae dadansoddi ein data fel hyn â'r potensial i'n helpu ni hefyd, yn ogystal â'n partneriaid a'n cyllidwyr, i allu gweld lle gellid targedu ymyriadau cyngor yn fwy effeithiol.

# Atodiad

## Deg maes cyngor mwyaf yng Nghymru – Ebrill - Medi 2015

| Maes cyngor | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | % | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Budd-daliadau a chredydau treth | 26,450 | 79,367 | 39% | +10% |
| Dyled | 13,836 | 58,655 | 29% | -2% |
| Cyflogaeth | 6,080 | 9,400 | 5% | -3% |
| Tai | 6,264 | 8,671 | 4% | +2% |
| Gwasanaethau a gallu ariannol[9] | 3,046 | 8,220 | 4% | +173% |
| Pethnasoedd a theuluoedd | 5,263 | 7,409 | 4% | -5% |
| Cyfleustodau a chyfathrebu[10] | 2,475 | 6,211 | 3% | +86% |
| Nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr | 3,457 | 5,449 | 3% | +42% |
| Cyfreithiol | 3,912 | 5,185 | 3% | +7% |
| Treth | 1,193 | 1,515 | 1% | +40% |

▲ Tabl A1: Y deg maes cyngor mwyaf y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

[9] Mae'r cynnydd sylweddol mewn gwasanaethau a gallu ariannol yn sgil cynnydd mewn problemau yn ymwneud â gallu ariannol a phensiwn personol. Mae gallu ariannol yn cael ei gysylltu'n gyson bellach â darpariaeth cyngor ar ddyledion. Mae sgileffeithiau darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb Pension Wise – y dechreuodd Cyngor ar Bopeth ei ddarparu ym mis Ebrill 2015 – hefyd wedi arwain at gynnydd mewn problemau yn ymwneud â phensiwn personol. Nid yw ffigurau Pension Wise wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond byddwn yn cyfeirio ato yn C3.

[10] Gweler rhagor o wybodaeth dan y tabl 'Defnyddwyr'.

## Budd-daliadau/credydau treth:

| Math o fudd-dal | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | % | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| PIP | 6,748 | 17,735 | 22% | +44% |
| ESA | 7,070 | 14,135 | 18% | +2% |
| Budd-dal tai | 4,745 | 7,270 | 9% | -2% |
| Credydau treth gwaith/plant | 4,395 | 6,709 | 8% | +9% |
| Gostyngiad y dreth gyngor | 3,645 | 4,835 | 6% | +1% |

▲ Tabl A2.1: Y pum problem budd-daliadau/credydau treth mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

### Cynnydd neu ostyngiad nodedig arall mewn problemau budd-daliadau/credydau treth

| Math o fudd-dal: | Nifer y problemau: | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|
| Credyd cynhwysol | 348 | +691% |
| Lwfans Ceisio Gwaith | 2,962 | -18% |
| Cap ar fudd-daliadau | 47 | -35% |
| Lwfans byw i'r anabl | 3,647 | -18% |
| Tanfeddiannaeth budd-dal tai | 213 | -33% |
| Banciau bwyd ('Cymorth elusennol') | 942 | -6% |
| Lles cymdeithasol lleol/Y Gronfa Cymorth Dewisol | 585 | +19% |

▲ Tabl A2.2: Newidiadau nodedig mewn problemau budd-daliadau/credydau treth y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

## Dyled:

| Math o ddyled | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | % | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Ôl-ddyledion y dreth gyngor | 2,995 | 7,732 | 13% | +19% |
| Cardiau credyd/siopau | 2,601 | 5,872 | 10% | -5% |
| Gorchymyn gostwng dyled | 1,779 | 5,593 | 9% | 0% |
| Benthyciadau personol | 2,624 | 5,573 | 9% | -15% |
| Ôl-ddyledion rhent – awdurdod lleol | 811 | 1,142 | 2% | +4% |
| Ôl-ddyledion rhent – cymdeithas tai | 738 | 1,067 | 2% | +20% |
| Ôl-ddyledion rhent – sector rhentu preifat | 634 | 965 | 2% | +16% |

▲ Tabl A3.1: Y pum problem ddyled mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

### Cynnydd neu ostyngiad nodedig arall mewn problemau dyledion

| Math o ddyled: | Nifer y problemau | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|
| Dyledion dŵr | 2,864 | +13% |
| Llys ynadon – dirywon ac ôl-ddyledion gorchymyn iawndal | 1,921 | +14% |
| Benthyciadau diwrnod cyflog | 892 | -42% |
| Dyledion catalog ac archebu drwy'r post | 2,788 | -10% |
| Methdaliad | 1,992 | -12% |

▲ Tabl A3.2: Newidiadau nodedig mewn problemau dyled y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

## Tai:

| Math o broblem | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | % | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Eiddo yn y sector rhentu preifat | 1,941 | 2,486 | 29% | +1% |
| Problemau amgylcheddol neu gyda chymdogion | 643 | 817 | 9% | -7% |
| Bygythiad o fod yn ddigartref | 672 | 761 | 9% | -10% |
| Tai awdurdod lleol | 594 | 713 | 8% | +3% |
| Eiddo perchennog-feddiannwr | 629 | 691 | 8% | -17% |

▲ Tabl A4: Y pum problem dyled mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

## Cyflogaeth:

| Math o broblem | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | % | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflog a hawliau | 1,932 | 2,341 | 25% | 0% |
| Diswyddo | 1,103 | 1,572 | 17% | -5% |
| Telerau ac amodau cyflogaeth | 1,099 | 1,243 | 13% | -3% |
| Datrys anghydfod | 862 | 1,035 | 11% | 0% |
| Dileu swyddi | 551 | 736 | 8% | 4% |

▲ Tabl A5: Y pum problem cyflogaeth mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

## Defnyddwyr[11]:

| Math o broblem | Nifer y cleientiaid | Nifer y problemau | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Gallu ariannol | 1,506 | 4,825 | +587% |
| Problemau tanwydd* (e.e. nwy, trydan, olew, glo) | 1,813 | 4,498 | +91% |
| Dŵr a charthffosiaeth* | 618 | 932 | +125% |
| Pensiynau personol (nid Cyfoeth Personol) | 628 | 843 | +201% |
| Cyfrifon banc/cymdeithas adeiladu/Swyddfa'r Post | 374 | 526 | +34% |
| Twyll a sgiamau | 341 | 948 | +369% |
| Atgyweiriadau/gwelliannau i adeiladau | 410 | 552 | +23% |

▲ Tabl A6.1: Y problemau defnyddwyr mwyaf cyffredin y bu Cyngor ar Bopeth Cymru yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

### *Probemau tanwydd[12] a dŵr – dadansoddiad pellach

| Math o broblem: | Nifer y problemau | Newid ers 2014-15 |
|---|---|---|
| Pris neu dariff nwy/trydan | 788 | -19% |
| Dulliau gwerthu/newid cyflenwr | 738 | +267% |
| Gostyngiad Cartref Cynnes | 737 | +233% |
| Biliau/darlleniad mesurydd | 519 | +102% |
| Dulliau talu | 366 | +331% |
| WaterSure/tariffau cymdeithasol[13] | 455 | +261% |

▲ Tabl A6.2: Dadansoddiad o broblemau tanwydd a dŵr y bu Cyngor ar Bopeth yn ymdrin â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

[11] Mae 'Defnyddwyr' yn cyfeirio at 'Gwasanaethau a nwyddau defnyddwyr, 'Gwasanaethau a gallu ariannol' a 'Cyfleustodau a chyfathrebu' yn un.
[12] Ers mis Ebrill 2015 mae'r rhan fwyaf o Gyngor ar Bopeth lleol yng Nghymru yn cael cyllid drwy raglen *Extra* Ynni – Y Fargen Orau. Mae'n debygol fod hyn wedi cael effaith ar nifer y bobl sy'n rhoi gwybod i ni am broblemau tanwydd.
[13] Yn sgil ehangu'r gwaith o gyflwyno/hyrwyddo WaterSure/tariffau cymdeithasol gan gwmnïau dŵr ers mis Ebrill 2015 yn ôl pob tebyg

## Prosiect Cyngor Ariannol Wyneb yn Wyneb[14]

| Pwnc | Nifer y sesiynau | % |
|---|---|---|
| Budd-daliadau | 876 | 31% |
| Dyledion a benthyca | 724 | 26% |
| Cyllidebu a rheoli arian | 478 | 17% |
| Gwaith, pensiwn ac ymddeol | 375 | 13% |
| Cartrefi a morgeisiau | 124 | 4% |

▲ Tabl A7: Y pum pwnc mwyaf poblogaidd a drafodwyd yn ystod sesiynau cynghori ariannol â nhw yn ystod Ch1 a Ch2 2015-16

I wybod mwy am y math o broblemau y gall eich Cyngor ar Bopeth lleol roi cyngor yn eu cylch neu i drafod unrhyw elfen o'r adroddiad hwn, cysylltwch â:
policy.cymru@citizensadvice.org.uk

[14] Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'i goladu ar draws nifer y ffrydiau ariannu gan gynnwys cyllid craidd gan awdurdodau lleol yn ogystal â phrosiectau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru (Cyngor Da, Byw'n Well; Cyngor Rheng Flaen a Phrosiect Canlyniadau ar y Cyd Cymunedau yn Gyntaf) a Phrosiect Dyledion y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori yng Nghymru trwy'r Prosiect Cyngor Ariannol Wyneb yn Wyneb y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Ceir adroddiad ar wahân am y ffigurau hynny yma.